**Cyfeirnod:** IR842

**Dyddiad cyhoeddi:** 13 Medi 2022

# Gwasanaethau Cysylltedd a Rhwydwaith

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 12 Medi 2022 yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Cysylltedd a Rhwydwaith.

I'w gwneud yn haws cyfeirio atynt, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn inc trwm ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

**a. Pwy sy'n darparu eich Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) a'ch cysylltedd â'r rhyngrwyd a faint yw'r gwariant blynyddol ar y naill a'r llall**

Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (gweler https://www.psba.gov.wales/) – Rhwydwaith Ardal Eang a'r rhyngrwyd, gwariant blynyddol £11,968

Zen Internet – Rhyngrwyd yn unig, gwariant blynyddol £924

**b. Pwy sy'n darparu eich uwch gysylltiadau SIP a faint yw'r gwariant blynyddol**

Dim

**c. Pwy sy'n darparu eich gwasanaethau Rhwydwaith Ardal Eang, ai MPLS, SD WAN ynteu Rhyngrwyd yw hyn, a faint yw'r gwariant blynyddol**

Gweler (a), Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus ac mae'r gwasanaethau'n cynnwys MPLS a Rhyngrwyd

**d. Pwy sy'n darparu eich seilwaith Rhwydwaith Ardal Leol (LAN) a faint yw eich gwariant blynyddol**

Mae Archwilio Cymru'n berchen ar ei seilwaith LAN ei hun, nid oes contract blynyddol i ddarparu LAN

**e. Pwy sy'n darparu eich seilwaith WIFI a faint yw eich gwariant blynyddol**

Mae Archwilio Cymru'n berchen ar ei seilwaith WiFi ei hun, nid oes contract blynyddol i ddarparu WiFi

**f. Cadarnhewch pwy yw gweithgynyrchydd/gweithgynhyrchwyr switsys craidd ac ymyl eich rhwydwaith gwifrog os gwelwch yn dda?**
Cisco

**g. Pryd osodwyd eich rhwydwaith craidd?**
Mawrth 2019

**h. A yw wedi cael ei ddiweddaru ers hynny?**
Naddo

**i. Pwy sy'n cynnal a chadw eich rhwydwaith craidd?**
Offer Cisco dan drefniant cynnal a chadw trwy Insight Direct

**j. Beth yw dyddiad adnewyddu'r contract?**
Mai 2023

**k. Cadarnhewch werth y prosiect cychwynnol os gwelwch yn dda?**
£41,238

**l. Cadarnhewch werth y gwasanaethau cymorth/cynnal a chadw blynyddol (mewn £) os gwelwch yn dda?**
£9,815

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, cysylltwch â mi'n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth